# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

## Adroddiad ar y Bil Dŵr - Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

Rhagfyr 2013

## 1. Cyflwyniad

1.1 Ar 20 Tachwedd 2013, trafododd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd femorandwm cydsyniad deddfwriaethol sy'n ymwneud â darpariaethau ym Mil Dŵr y DU.

1.2 Cytunodd i roi gwybod i Gynulliad Cenedlaethol Cymru **nad oes ganddo unrhyw wrthwynebiad i ddefnyddio'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn, fel y'i cynigiwyd gan Lywodraeth Cymru.**

1.3 Mae gweddill yr adroddiad hwn yn amlinellu'r cefndir i'r penderfyniad hwn.

1.4 Mae Gwasanaethau Cyfreithiol a Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad wedi darparu nodyn briffio cynhwysfawr i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd. Mae'r nodyn hwnnw wedi'i atodi i'r adroddiad hwn.

1.5 Mae lincs ar gyfer yr holl ddogfennau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn ar gael yn yr adran olaf: 'Ffynonellau a gwybodaeth ychwanegol'.

## 2. Cyd-destun

2.1 Mae Bil Dŵr Llywodraeth y DU ("y Bil") yn cael ei ystyried gan Senedd y DU ar hyn o bryd.

2.2 Mae rhai adrannau o'r Bil hwn yn ceisio deddfu mewn meysydd cymhwysedd sydd wedi eu datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'n ofynnol, yn ôl confensiwn, bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad') yn ystyried cydsynio â hyn. Mae'r Cynulliad yn gwneud hyn drwy drafod cynnig cydsyniad deddfwriaethol a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru.

2.3 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru femorandwm cydsyniad deddfwriaethol ('y Memorandwm') ar 18 Medi 2013 sy'n egluro hyn yn fanylach.

2.4 Yn bennaf, mae'r Memorandwm yn nodi bod y darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad yn eu cylch wedi'u cynnwys o fewn 31 o Gymalau a phum Atodlen. Rhestrir y rhain yn y Memorandwm ac ni chânt eu hail-adrodd yma.

## 3. Diben y polisi

3.1 Mae'r Memorandwm yn nodi diben y polisi yn fanylach. Ceir crynodeb yn adrannau pedwar a phump isod. Darllenwch bapur y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Gwasanaeth Ymchwil sydd wedi'i atodi i'r adroddiad hwn am eglurhad manylach. Ar y cyfan, mae'r wybodaeth isod yn ailadrodd adrannau un i dri o'r nodyn.

## 4. Y Bil Dŵr

4.1 Mae'r Bil Dŵr ("y Bil") wedi'i noddi gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Llywodraeth y DU ("Defra") a chafodd ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 27 Mehefin 2013.

4.2 Amcanion polisi Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw diwygio'r diwydiant dŵr i'w wneud yn fwy arloesol ac ymatebol i gwsmeriaid a chynyddu'i allu i wrthsefyll peryglon naturiol fel sychder neu lifogydd. Mae hyn yn cynnwys galluogi busnesau a chwsmeriaid dibreswyl eraill i newid eu cyflenwyr dŵr a charthffosiaeth, a galluogi gweithredwyr aml-safle i dendro am un cyflenwr ledled Prydain.

4.3 Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ar y dull arfaethedig, bydd y Bil hefyd yn cynwys mesurau i ymdrin â fforddiadwyedd yswiriant llifogydd.

4.4 Un o'r prif wahaniaethau rhwng y Bil Dŵr Drafft a'r Bil fel y'i cyflwynwyd, yw bod y Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r ardal gyfan a wasanaethir gan ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Byddai hyn, wrth gwrs, yn cynnwys rhannau o Loegr. Mae hyn yn dilyn y broses bresennol o ddatganoli swyddogaethau gweithredol Gweinidogion Cymru. Roedd y Bil Dŵr Drafft yn cynnig mai dim ond dros y rhannau o Gymru o fewn yr ardaloedd a wasanaethir gan ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru y byddai gan Weinidogion Cymru bwerau. Er y byddai hyn wedi golygu y byddai'r Bil wedi adlewyrchu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, gallai fod wedi achosi anawsterau yn ymarferol. Er enghraifft, byddai Dŵr Cymru a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy wedi gorfod gweithredu dwy gyfundrefn wahanol yn dibynnu a oedd eu cwsmeriaid yn byw yng Nghymru neu yn Lloegr. Ni fydd y safbwynt presennol yn osgoi'r sefyllfa lle y gallai cwsmeriaid cwmni Severn Trent sy'n byw yng Nghymru fod yn destun cyfundrefn wahanol. Serch hynny, mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa fel mae ar hyn o bryd.

4.5 Gellir gweld ardaloedd penodi'r ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth traws-ffiniol yng Nghymru ar y map isod.




## 5. Polisi Llywodraeth Cymru

5.1 Yn gynharach eleni, cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad i gystadleuaeth a fforddiadwyedd yn y diwydiant dŵr. Yn ystod yr ymchwiliad ategodd y Gweinidog safbwynt Llywodraeth Cymru nad oedd yn cefnogi cyflwyno cystadleuaeth yn y farchnad ddibreswyl yng Nghymru. Dywedodd, wrth roi [tystiolaeth lafar (paragraff 5) ]:

> Nid ydym am ddilyn yr un llwybr â'r Llywodraeth yn San Steffan o or-ddefnyddio'r gystadleuaeth y tu mewn i'r system cyflenwi dŵr ... rwy'n credu bod gennym gwmni, yn Dŵr Cymru, sy'n gwneud job arbennig o dda, ac mae

gennym yn Glas Cymru fframwaith a system o gyflenwi dŵr sy'n gweithio i bobl Cymru ac sydd wedi dod â buddsoddiad i mewn i'r system ac sydd wedi lleihau biliau... Felly, ni hoffwn weld y math o gystadleuaeth y mae Llywodraeth San Steffan yn ei drafod ar hyn o bryd yn ein system ni yng Nghymru.

5.2 Safbwynt presennol Llywodraeth Cymru yw nad yw'n cytuno â chystadleuaeth, ond os caiff y Bil ei basio fel y mae wedi'i ddraffio ar hyn o bryd, bydd yn galluogi Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn y dyfodol i gyflwyno cystadleuaeth os byddant am wneud hynny.

## 6. Y broses ar gyfer ystyried y cynnig

6.1 Mae'r Pwyllgor Busnes wedi trosglwyddo'r Memorandwm hwn i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i'w ystyried. Wrth wneud hynny, mae dyletswydd ar y Pwyllgor Busnes i bennu amserlen ar gyfer ystyried y Memorandwm.

6.2 Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 5 Rhagfyr 2013.

6.3 Bydd y Cynulliad yn ystyried y cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn y Cyfarfod Llawn ar 10 Rhagfyr 2013.

## 7. Casgliadau

7.1 Mae'r setliad datganoli mewn perthynas â dŵr yn gymhleth. Mae llawer o ddarpariaethau'r Bil y ceisir cydsyniad yn eu cylch yn cynnwys cyfuniad o faterion datganoledig a rhai nad ydynt wedi'u datganoli. Mae'r eglurhad o gymalau'r Bil wedi'i gymryd o'r Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil sydd, wrth gwrs, yn cynnwys materion datganoledig a rhai nad ydynt wedi'u datganoli. Mae hyn yn cymhlethu'r broses o ystyried y Memorandwm ymhellach. **Byddai o gymorth sylweddol i'r Pwyllgor pe bai'r Gweinidog, mewn unrhyw Femoranda yn y dyfodol sy'n ymwneud â dŵr, yn ystyried tynnu sylw at y rhannau pendol hynny o gymalau'r Bil sydd, yn ei farn ef, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.**

7.2 Mae'n ofynnol, o dan Reol Sefydlog 30.2, bod darpariaethau yn y Bil sy'n newid swyddogaethau gweithredol Gweinidogion Cymru, nad ydynt yn destun y Memorandwm, yn cael eu hysbysu i'r Cynulliad ar wahân. Mae'r Gweinidog, yn ei ddatganiad ar 16 Hydref 2013, wedi tynnu sylw'r Cynulliad

at nifer o gymalau yn y Bil, gan gynnwys Cymal 5. Mae Cymal 5 yn cyflwyno Atodlen 5. Byddai'r darpariaethau hyn, o'u cymryd gyda'i gilydd, yn ehangu'r gyfundrefn gystadleuaeth newydd yn ardaloedd ymgymerwyr dŵr sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Er na fyddai o fewn cymhwysedd y Cynulliad i gyflwyno'r system newydd o drwyddedu a gynigir gan y Bil, mae rhai o'r newidiadau a wneir gan Atodlen 5 yn gwneud darpariaeth ar gyfer diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, a dyna pam y ceisir cydsyniad ar gyfer Atodlen 5. Serch hynny, mae'n aneglur pam y cyfeirir at Gymal 5 yn natganiad y Gweinidog, ond nid yn y Memorandwm, o ystyried bod Atodlen 5 yn ddibynnol ar gychwyn Cymal 5. **Efallai y bydd Aelodau'r Cynulliad am gael esboniad am hyn gan y Gweinidog yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn.**

7.3 Mae Adran 4 o'r Bil yn darparu cymal dalfan i fynd i'r afael ag argaeledd a fforddiadwyedd yswiriant i aelwydydd yn y DU sy'n wynebu perygl mawr o lifogydd. Daeth ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar y cymalau drafft i'w cynnwys yn y Bil i ben ar 20 Medi 2013. Gan fod 'yswiriant' yn eithriad i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, mae'n aneglur pam y cyfeirir at Ran 4 o'r Bil yn y Memorandwm. **Efallai bydd Aelodau'r Cynulliad am ofyn i'r Gweinidog egluro natur a chwmpas unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch y cymalau drafft ar yswiriant llifogydd, ac a ddisgwylir Memorandwm pellach.**

7.4 Er bod y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd wedi gofyn am ragor o wybodaeth, mae wedi cytuno i roi gwybod i'r Cynulliad **nad oes ganddo wrthwynebiad i ddefnyddio'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn, fel y'i cynigiwyd gan Lywodraeth Cymru.**

**Ffynonellau a gwybodaeth ychwanegol**

- Mae copi o'r **memorandwm cydsyniad deddfwriaethol** ar gael yn: http://www.cynulliadcymru.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=241809&ds=1/2013

- Mae'r **datganiad a wnaed gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd** ar 16 Hydref 2013 ar gael yma:http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-business-fourth-assembly-written-ministerial-statements.htm?act=dis&id=251071&ds=10/2013

- Mae'r **Bil Dŵr** ar gael ar wefan Senedd y DU: http://services.parliament.uk/bills/2013-14/water.html

- Mae manylion ymchwiliad ac adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar **Bolisi Dŵr yng Nghymru** (Awst 2013) ar gael yma: http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=5272

- Mae **Hysbysiad Hwylus y Gwasanaeth Ymchwil** *Cyfres y Cyfansoddiad: 6 – Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol* ar gael yn: http://www.cynulliadcymru.org/qg07-0006.pdf

- Gellir gweld y **Rheolau Sefydlog** yn http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-assembly-guidance.htm (Mae Rheol Sefydlog 29 yn pennu'r broses ar gyfer ystyried memorandwm cydsyniad deddfwriaethol

## Atodiad 1 – Nodyn briffio gan Wasanaethau Cyfreithiol a Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlethol Cymru

### Y PWYLLGOR AMGYLCHEDD A CHYNALIADWYEDD

Mae'r dudalen flaen hon yn rhoi crynodeb o'r prif bwyntiau a drafodir yn y nodyn briffio atodedig gan y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Gwasanaeth Ymchwil

### MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL – Y Bil Dŵr

Er bod y Bil yn cynnwys cyfuniad o faterion datganoledig a rhai heb eu datganoli, mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn fodlon ei fod yn gwneud darpariaeth berthnasol mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Ym marn y Gweinidog, y Bil yw'r cyfrwng deddfwriaeth mwyaf ymarferol a chymesur i alluogi'r darpariaethau hynny i fod yn gymwys mewn perthynas â Chymru, o ystyried y caiff y diwydiant dŵr a charthffosiaeth ei reoleiddio ar sail ymgymerwyr sy'n gweithredu'n 'gyfan gwbl neu'n bennaf' yng Nghymru.

Efallai y bydd y Pwyllgor am drafod y pwyntiau canlynol:

- O ystyried natur gymhleth y setliad datganoli mewn perthynas â dŵr, ynghyd â'r ffaith bod llawer o ddarpariaethau'r Bil y ceisir cydsyniad yn eu cylch yn cynnwys cyfuniad o faterion datganoledig a rhai hen eu datganoli, efallai y bydd y Pwyllgor am ofyn i'r Gweinidog mewn unrhyw Femoranda yn y dyfodol sy'n ymwneud â dŵr, ystyried tynnu sylw at y rhannau penodol hynny o gymalau'r Bil sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

- Mae'r Gweinidog wedi tynnu sylw'r Cynulliad at Gymal 5 o'r Bil, yn ei ddatganiad y cyfeirir ato ym mharagraff 4.2 isod. Er na fyddai cyflwyno'r system drwyddedau newydd a gynigir yng Nghymal 1 o'r Bil o fewn cymhwysedd y Cynulliad, ymddengys y ceisir cydsyniad yn y Memorandwm ar gyfer Atodlen 5 gan fod rhai o'r newidiadau a gynigir gan yr Atodlen yn gwneud darpariaeth at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Mae'r gwelliannau yn Atodlen 5 yn diwygio neu'n diddymu geiriau Deddf y Diwydiant Dŵr, fel y'i diwygir gan ddarpariaethau eraill yn y Bil, sy'n atal yr awdurdodiadau cyflenwi dŵr newydd a'r trwyddedau carthffosiaeth newydd rhag bod yn gymwys i ymgymerwyr y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Gan fod Cymal 5 yn cyflwyno Atodlen 5, mae'n aneglur pam y cyfeiriwyd ato yn y datganiad, ond nid yn y Memorandwm. Efallai y bydd y Pwyllgor am drafod hynny gyda'r Gweinidog.

- Efallai y bydd y Pwyllgor am ofyn i'r Gweinidog egluro natur a chwmpas unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch y cymalau drafft ar yswiriant llifogydd, ac a ddisgwylir Memorandwm pellach.

Lluniwyd y ddogfen hon gan gyfreithwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn rhoi gwybodaeth a chyngor i Aelodau'r Cynulliad a'u staff ynghylch materion dan ystyriaeth gan y Cynulliad a'i bwyllgorau ac nid at unrhyw ddiben arall. Gwnaed pob ymdrech i sicrhau fod yr wybodaeth a'r cyngor a gynhwysir ynddi yn gywir, ond ni dderbynir cyfrifoldeb am unrhyw ddibyniaeth a roddir arnynt gan drydydd partïon.
This document has been prepared by National Assembly for Wales lawyers in order to provide Assembly Members and their staff with information and advice in relation to matters under consideration by the Assembly and its committees and for no other purpose. Every effort has been made to ensure that the information and advice contained in it are accurate, but no liability is accepted for any reliance placed on them by third parties.

**Y PWYLLGOR AMGYLCHEDD A CHYNALIADWYEDD**
**Nodyn Briffio**

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL – Y Bil Dŵr**

## 1.0 Cefndir

1.1 Ar 18 Medi 2013, gosododd Alun Davies AC, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ("y Gweinidog"), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ("Memorandwm") ynghylch y Bil Dŵr ("y Bil") yn unol â Rheol Sefydlog 29.2. Trafodwyd y Memorandwm ar 24 Medi 2013 gan y Pwyllgor Busnes, a gytunodd i'w gyfeirio at y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

1.2 Rhaid i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 5 Rhagfyr 2013 fan bellaf.

## 2.0 Y Bil

2.1 Mae'r Bil Dŵr ("y Bil") wedi'i noddi gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Llywodraeth y DU ("Defra") a chafodd ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 27 Mehefin 2013. Mae'r Bil ar gael yn:

http://services.parliament.uk/bills/2013-14/water/documents.html


2.2 Amcanion polisi Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw diwygio'r diwydiant dŵr i'w wneud yn fwy arloesol ac ymatebol i gwsmeriaid a chynyddu ei allu i wrthsefyll peryglon naturiol fel sychder neu lifogydd. Mae hyn yn cynnwys galluogi busnesau a

chwsmeriaid dibreswyl eraill i newid eu cyflenwyr dŵr a charthffosiaeth, a galluogi gweithredwyr aml-safle i dendro am un cyflenwr ledled Prydain.

2.3 Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ar y dull arfaethedig, bydd y Bil hefyd yn cynwys mesurau i ymdrin â fforddiadwyedd yswiriant llifogydd.

2.4 Un o'r prif wahaniaethau rhwng y Bil Dŵr Drafft a'r Bil fel y'i cyflwynwyd, yw bod y Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r ardal gyfan a wasanaethir gan ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Byddai hyn, wth gwrs, yn cynnwys rhannau o Loegr. Mae hyn yn dilyn y broses bresennol o ddatganoli swyddogaethau gweithredol Gweinidogion Cymru. Efallai y bydd y Pwyllgor yn cofio i'r Bil Dŵr Drafft gynnig mai dim ond dros y rhannau o Gymru o fewn yr ardaloedd a wasanaethir gan ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru y byddai gan Weinidogion Cymru bwerau. Er y byddai hyn wedi golygu y byddai'r Bil wedi adlewyrchu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, gallai fod wedi achosi anawsterau yn ymarferol. Er enghraifft, byddai Dŵr Cymru a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy wedi gorfod gweithredu dwy gyfundrefn wahanol yn dibynnu a oedd eu cwsmeriaid yn byw yng Nghymru neu yn Lloegr. Ni fydd y safbwynt presennol yn osgoi'r sefyllfa lle y gallai cwsmeriaid cwmni Severn Trent sy'n byw yng Nghymru fod yn destun cyfundrefn wahanol. Serch hynny, mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa fel y mae ar hyn o bryd.

2.5 Gellir gweld ardaloedd penodi'r ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth trawsffiniol yng Nghymru ar y map isod.




## 3.0 Safbwynt Polisi Llywodraeth Cymru

3.1 Bydd yr Aelodau'n cofio i'r Pwyllgor gynnal ymchwiliad i gystadleuaeth a fforddiadwyedd yn y diwydiant dŵr yn gynharach eleni. Yn ystod yr ymchwiliad ategodd y Gweinidog safbwynt Llywodraeth Cymru nad oedd yn cefnogi cyflwyno cystadleuaeth yn y farchnad ddibreswyl yng Nghymru. Dywedodd, wrth roi tystiolaeth lafar (paragraff 5) :

> Nid ydym am ddilyn yr un llwybr â'r Llywodraeth yn San Steffan o or-ddefnyddio'r gystadleuaeth y tu mewn i'r system cyflenwi dŵr.... rwy'n credu bod gennym gwmni, yn Dŵr Cymru, sy'n gwneud job arbennig o dda, ac mae gennym yn Glas Cymru fframwaith a system o gyflenwi dŵr sy'n gweithio i bobl Cymru ac sydd wedi dod â buddsoddiad i mewn i'r system ac sydd wedi lleihau biliau... Felly, ni hoffwn weld y math o gystadleuaeth y mae Llywodraeth San Steffan yn ei drafod ar hyn o bryd yn ein system ni yng Nghymru.

3.2 Safbwynt presennol Llywodraeth Cymru yw nad yw'n cytuno â chystadleuaeth, ond os caiff y Bil ei basio fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, bydd yn galluogi Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn y dyfodol i gyflwyno cystadleuaeth os byddant am wneud hynny. Fel y nodir ym mharagraff 6.11, nid yw'n glir ar hyn o bryd a yw'r Gweinidog yn ceisio cydsyniad y Cynulliad ynghylch y darpariaethau sy'n cyflwyno cystadleuaeth.

## 4.0 Penderfynu a oes angen Memorandwm

4.1 Mae Rheol Sefydlog 29.2 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod Memorandwm, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cymhwysedd Deddfwriaethol, gerbron y Cynulliad, os bydd Bil Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, neu sy'n ei addasu.

4.2 Os bydd Bil y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru, ond nad yw'n gymwys i gael ei ystyried o dan Reol Sefydlog 29, mae Rheol Sefydlog 30.2 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywodraeth osod datganiad ysgrifenedig gerbron y Cynulliad. Gosododd y Gweinidog ddatganiad o'r fath gerbron y Cynulliad ar 16 Hydref 2013. Mae angen y datganiad hwn am fod y Bil yn addasu swyddogaethau gweithredol Gweinidogion Cymru. Nid yw'n ofynnol i'r Cynulliad roi cydsyniad mewn perthynas â'r hysbysiad.

## 5.0 Cymhwysedd Deddfwriaethol a Gweithredol ar gyfer Dŵr

5.1 Mae Paragraff 19 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn datganoli'r canlynol i'r Cynulliad: cyflenwad dŵr, rheoli adnoddau dŵr (gan gynnwys cronfeydd dŵr), ansawdd dŵr, cynrychioli defnyddwyr gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth a rheoli'r perygl o lifogydd a diogelu'r arfordir.

5.2 Nid yw'r gwaith o reoleiddio a phenodi unrhyw ymgymerwr dŵr nad yw ei ardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru wedi'i ddatganoli.

5.3 Mae eithriad hefyd o ran trwyddedu a rheoleiddio cyflenwyr dŵr trwyddedig o fewn ystyr Deddf y Diwydiant Dŵr 1991, ac eithrio rheoleiddio mewn perthynas â gweithgareddau trwyddedig sy'n defnyddio system gyflenwi ymgymerwr dŵr y mae ei ardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.

5.4 Nid yw'r cyfrifoldeb am drwyddedu a rheoleiddio gwasanaethau carthffosiaeth wedi'i ddatganoli.

5.5 O dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr, mae cymhwysedd gweithredol mewn perthynas â gweithgareddau'r diwydiant dŵr a charthffosiaeth wedi'i ddatganoli i raddau helaeth mewn perthynas ag ymgymerwyr sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, ond mae rhai eithriadau.

5.6 O safbwynt ymarferol, ar lefel syml iawn, mae hyn yn golygu, er y gall Gweinidogion Cymru, er enghraifft, lunio rhai mathau o is-ddeddfwriaeth mewn perthynas ag ardaloedd penodi neu gyflenwi Dŵr Cymru neu Dŵr Dyffryn Dyfrdwy yn eu cyfanrwydd, (gan effeithio, felly, ar gwsmeriaid yn Lloegr), ni fyddai cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, o reidrwydd, yn galluogi'r Cynulliad i lunio deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â'r un mater, oherwydd efallai na fydd Deddfau Cynulliad yn gymwys fel arall mewn perthynas â Chymru (yn ddarostyngedig i Adran 108 (5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006).

## 6.0 Y darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad yn eu cylch

6.1 Nodir y darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad yn eu cylch o baragraff 5 ymlaen yn y Memorandwm. Maent yn cynnwys 31 o Gymalau a phum Atodlen. Mae'r Memorandwm yn rhoi esboniad manylach o'r holl gymalau y ceisir cydsyniad yn eu cylch. Cymerwyd yr esboniad hwnnw'n bennaf o'r nodiadau esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil.

**6.2 O ystyried natur gymhleth y setliad datganoli mewn perthynas â dŵr, ynghyd â'r ffaith bod llawer o ddarpariaethau'r Bil y ceisir cydsyniad yn eu cylch yn cynnwys cyfuniad o faterion datganoledig a rhai heb eu datganoli, efallai y bydd y Pwyllgor am ofyn i'r Gweinidog mewn unrhyw Femoranda yn y dyfodol sy'n ymwneud â dŵr ystyried tynnu sylw at y rhannau penodol hynny o gymalau'r Bil sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.**

Rhan 1 - Y diwydiant dŵr - Cymalau 3, 8,10,12,13,16-28,31-34, 36-38, 39, Atodlen 2,5,6.7

**Pennod 1 Trwyddedau cyflenwi dŵr a thrwyddedau carthffosiaeth – Cymal 3, Atodlenni 2 a 5**

6.3 Mae'r Bennod hon yn canolbwyntio ar ymestyn y gyfundrefn trwyddedau cyflenwi dŵr, cyflwyno trwyddedau carthffosiaeth a chreu marchnad fanwerthu drawsffiniol rhwng Cymru a Lloegr a'r Alban.

6.4 Mae Pennod 1 yn diwygio Deddf y Diwydiant Dŵr drwy ymestyn a diwygio'r gyfundrefn trwyddedau cyflenwi dŵr bresennol ac ychwanegu cyfundrefn drwyddedau o ran carthffosiaeth.

6.5 O dan y gyfundrefn trwyddedau cyflenwi dŵr bresennol, os bydd cwsmer dibreswyl yn gymwys, gall ddewis newid o'i gyflenwr presennol i drwyddedai cyflenwi dŵr. Un o'r meini prawf yw bod yn rhaid i gyfanswm y dŵr a gyflenwir i'r safle perthnasol fod yn 50 miliwn litr o ddŵr y flwyddyn yn achos safleoedd a gyflenwir gan ymgymerwr y mae ei ardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Y terfyn uchaf yw 5 miliwn litr yn Lloegr.

6.6 Gall darpar drwyddedeion wneud cais am ddau fath gwahanol o drwydded ar hyn o bryd:

- **Trwydded gyflenwi fanwerthol**: Mae'r drwydded hon yn caniatáu i'r trwyddedai brynu cyflenwad cyfanwerth o system gyflenwi cwmni dŵr penodedig a chyflenwi safle ei gwsmeriaid.

- **Trwydded gyflenwi gyfun**: Mae'r drwydded hon yn galluogi'r trwyddedai i gyflwyno dŵr i system gyflenwi, a chyflenwi safleoedd ei gwsmeriaid.

6.7 O dan y gyfundrefn trwyddedau cyflenwi dŵr bresennol, dim ond os bydd hefyd yn darparu elfen 'fanwerthu' y gwasanaeth y gall trwyddedai gyflwyno dŵr i'r system.

6.8 Y ddau newid pwysig a wneir gan Bennod 1 o'r Bil yw'r pŵer i ddiddymu'r trothwy presennol a geir yn Neddf y Diwydiant Dŵr (h.y. y maen prawf o 50 miliwn litr) a newidiadau i'r system drwyddedau a fydd yn galluogi trwyddedeion i gyflwyno dŵr i system gyflenwi hyd yn oed os nad hwy sy'n darparu'r elfen 'fanwerthu'.

6.9 Bwriad Llywodraeth y DU yw bod y darpariaethau sy'n dod â'r system drwyddedau newydd i rym a'r rhai sy'n diddymu'r trothwy presennol yn cael eu cyflwyno ar yr un pryd i gwsmeriaid ymgymerwyr dŵr sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr, gan gynnwys cwsmeriaid Severn Trent.

6.10 Mewn ardaloedd dan ofal ymgymerwyr sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, ni fydd y system yn newid, oni bai am y ffaith y gelwir trwyddedau 'manwerthu' yn drwyddedau 'manwerthu cyfyngedig' bellach, a 'thrwyddedau cyfun' yn 'drwyddedau atodol'. Arddelir y safbwynt hwn hyd nes y bydd Gweinidogion Cymru yn cychwyn Cymal 5 ac Atodlen 5 o'r Bil drwy Orchymyn.

6.11 Mae'r Gweinidog wedi tynnu sylw'r Cynulliad at Gymal 5 o'r Bil yn ei ddatganiad y cyfeirir ato ym mharagraff 4.2 uchod. Er na fyddai cyflwyno'r system drwyddedau newydd a gynigir yng Nghymal 1 o'r Bil o fewn cymhwysedd y Cynulliad, ymddengys y ceisir cydsyniad yn y Memorandwm ar gyfer Atodlen 5 gan fod rhai o'r newidiadau a gynigir gan yr Atodlen yn gwneud darpariaeth at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Mae'r gwelliannau yn Atodlen 5 yn diwygio neu'n diddymu geiriau Deddf y Diwydiant Dŵr, fel y'i diwygir gan ddarpariaethau eraill yn y Bil, sy'n atal yr awdurdodiadau cyflenwi dŵr newydd a'r trwyddedau carthffosiaeth newydd rhag bod yn gymwys i ymgymerwyr y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Gan fod Cymal 5 yn cyflwyno Atodlen 5, mae'n aneglur pam y cyfeiriwyd ato yn y datganiad, ond nid yn y Memorandwm. Efallai y bydd y Pwyllgor am drafod hynny gyda'r Gweinidog.

6.12 Byddai Cymal 3 o'r Bil yn caniatáu i'r trothwy (50 miliwn litr) gael ei ddiddymu drwy Orchymyn gan Weinidogion Cymru ar gyfer safleoedd a gyflenwir gan systemau ymgymerwyr y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Byddai unrhyw Orchmynion a wneir o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **gadarnhaol**.

6.13 Mae Atodlen 2 yn cyflwyno gwelliannau i Ddeddf y Diwydiant Dŵr i ehangu dyletswyddau ymgymerwyr dŵr er mwyn ystyried awdurdodiadau newydd a ganiateir o dan y drwydded cyflenwi dŵr. Mae adran 66A newydd o Ddeddf y Diwydiant Dŵr, a gyflwynir gan yr Atodlen, yn darparu y gall ymgymerwr dŵr wrthod adael i drwyddedai ddefnyddio ei system gyflenwi os bydd y trwyddedai wedi methu â chael cyflenwad dŵr, neu os na fydd y ffitiadau dŵr dan sylw yn cydymffurfio ag unrhyw rai o reoliadau Gweinidogion Cymru o dan adran 74 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr (rheoliadau ar gyfer atal halogi dŵr, dŵr gwastraff ac ati). Mae unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 74 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **negyddol**.

6.14 Yn olaf, at hynny, er mwyn hwyluso marchnad fanwerthu drawsffiniol rhwng Cymru a Lloegr a'r Alban, mae Pennod 1 o'r Bil yn diwygio Deddf y Diwydiant Dŵr a'r Gyfraith gyfatebol yn yr Alban. Bydd hynny'n caniatáu i'r Swyddfa Gwasanaethau

Dŵr a Chomisiwn Diwydiant Dŵr yr Alban dderbyn cais unigol am drwydded gwasanaethau dŵr yn eu hawdurdodaethau ei gilydd.

**Pennod 2 Ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth - Cymalau 8-12, 16-17, 24 a 28**

6.15 Mae'r Bennod hon yn canolbwyntio ar:

- y trefniadau rhwng ymgymerwyr,
- penodiadau mewnosod (h.y. pan fydd un cwmni dŵr yn cymryd lle un arall fel cyflenwr gwasanaethau dŵr a/neu garthffosiaeth mewn ardal ddaearyddol benodol),
- dyletswyddau'r Swyddfa Gwasanaethau Dŵr (Ofwat) a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd o ran uno cwmnïau,
- canllawiau'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru o ran codi tâl,
- rheolau'r Swyddfa Gwasanaethau Dŵr o ran codi tâl,
- taliadau a godir gan ymgymerwyr, a draenio cynaliadwy.

6.16 Mae'r Bil yn diwygio Deddf y Diwydiant Dŵr i gyflwyno codau a rheolau o ran codi tâl gan y Swyddfa Gwasanaethau Dŵr sydd â'r bwriad o wella tryloywder a symleiddio'r trafodaethau rhwng ymgymerwyr, gan gynnwys rhai sy'n ymwneud â phenodai newydd.

6.17 Mae Cymalau 8-11 ac 16-17 yn cynnwys pwerau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau ynghylch cynnwys rheolau'r Swyddfa Gwasanaethau Dŵr ar daliadau amrywiol. Nid yw'r canllawiau yn ddarostyngedig i weithdrefnau'r Cynulliad.

6.18 Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i wneud rheoliadau ynghylch cyflenwi dŵr i ymgymerwr dŵr gan rai nad ydynt yn ymgymerwyr dŵr. Bydd y rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn **gadarnhaol**.

6.19 Yn olaf, mae'r Bennod hon yn rhoi'r pŵer i ymgymerwyr carthffosiaeth i adeiladu, cynnal a gweithredu systemau draenio at y diben o leihau'r dŵr wyneb sy'n llifo i garthffosydd cyhoeddus, neu pa mor gyflym y mae'n gwneud hynny.

**Pennod 3 Rheoleiddio'r diwydiant dŵr - Cymalau 22-26, 28, 31-34, 36-38 ac Atodlen 6**

6.20 Mae'r Bennod hon yn canolbwyntio ar reoleiddio'r diwydiant dŵr, apeliadau yn erbyn codau, swyddogaethau dyfarnu a phwerau codi tâl yr Arolygiaeth Dŵr Yfed.

6.21 Mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd sylfaenol newydd i sicrhau cadernid hirdymor y cyflenwad dŵr a systemau carthffosiaeth i wrthsefyll pwysau amgylcheddol, twf yn y boblogaeth a newid yn ymddygiad defnyddwyr. Mae dyletswydd newydd ar Weinidogion Cymru hefyd i sicrhau nad yw ymgymerwyr yn dangos ffafriaeth ddi-sail neu'n gwahaniaethu'n ddi-sail wrth ymdrin ag ymgymerwyr a thrwyddedeion eraill.

6.22 Mae'r Bil yn rhoi pŵer newydd i Weinidogion Cymru sy'n eu caniatáu i lunio un datganiad wedi'i gydgrynhoi o flaenoriaethau ac amcanion strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Swyddfa Gwasanaethau Dŵr, i'w ddilyn wrth gyflawni ei swyddogaeth statudol.

6.23 Er mwyn ategu'r diwygiadau hyn, mae'r Bil yn rhoi pwerau i'r Swyddfa Gwasanaethau Dŵr reoleiddio'r farchnad dŵr a charthffosiaeth wrth i gystadleuaeth ddatblygu.

6.24 Mae darpariaeth i Weinidogion Cymru gyhoeddi a diwygio canllawiau lefel uchel mewn perthynas â rheolau'r Swyddfa Gwasanaethau Dŵr o ran codi tâl, a wneir yn unol â'r Bil. Rhaid ymgynghori'n briodol ar y canllawiau, a rhaid iddynt gael eu gosod gerbron y Cynulliad am gyfnod o 40 o ddiwrnodau, a gall y Cynulliad benderfynu peidio â mabwysiadu'r canllawiau yn ystod y cyfnod hwnnw.

6.25 Mae mesurau i leihau pa mor aml y gofynnir i ymgymerwyr lunio cynlluniau sychder i gylch o hyd at bum mlynedd. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i ymgymerwyr adolygu eu cynlluniau sychder ymhen tair blynedd a chwe mis, fan bellaf, i ddyddiad cyhoeddi'r cynllun sychder terfynol blaenorol, a gall Gweinidogion Cymru hefyd ddiwygio'r amserlenni cynllunio ar gyfer cynlluniau rheoli adnoddau dŵr ymgymerwyr drwy orchymyn (yr amserlen gynllunio bresennol yw 25 mlynedd). Mae pob gorchymyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **negyddol**.

6.26 Mae'r Bil yn cynnig pŵer newydd i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, i nodi partïon amgen i gyflawni rhai o gyfrifoldebau dyfarnu'r Swyddfa Gwasanaethau Dŵr. Bydd y gorchymyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Mae mesur newydd hefyd a fyddai'n caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau am apeliadau i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn erbyn penderfyniadau gan y Swyddfa Gwasanaethau Dŵr i ddiwygio cod penodedig neu i beidio â gwneud diwygiad yn dilyn ymgynghoriad ynghylch diwygiad arfaethedig.

6.27 Yn olaf, mae hefyd ddiwygiad i Ddeddf y Diwydiant Dŵr sy'n galluogi'r Arolygiaeth Dŵr Yfed i godi tâl am gostau ei weithgareddau rheoleiddio y tu hwnt i 2017.

**Pennod 4 Cymalau Atodol**

6.28 Mae'r Bennod hon yn rhoi'r pŵer i'r Swyddfa Gwasanaethau Dŵr, am gyfnod cyfyngedig, i wneud newidiadau i amodau penodi ymgymerwyr ac amodau trwydded cyflenwyr dŵr trwyddedig, er mwyn gweithredu diwygiadau'r Bil. Ochr yn ochr â hyn, mae pŵer i roi cyfarwyddyd i'r Swyddfa Gwasanaethau Dŵr ar unrhyw newidiadau arfaethedig.

6.29 Mae cymal pellach yn gweithredu Atodlen 7 i'r Bil, sy'n cwmpasu'r diwygiadau o ganlyniad i'r ddarpariaeth a wneir gan Ran 1 o'r Bil.

<u>Rhan 2 – Adnoddau dŵr – Cymalau 41-43</u>

6.30 Mae'r rhan hon o'r Bil yn dileu'r gallu i ymgymerwyr hawlio iawndal am golledion o ganlyniad i addasu a diddymu eu trwyddedau tynnu dŵr o dan rai amgylchiadau.

6.31 Mae'n diwygio Deddf Adnoddau Dŵr 1991 er mwyn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am gynnal map o'r prif afonydd yng Nghymru o Weinidogion Cymru i Cyfoeth Naturiol Cymru, a'i gwneud yn ofynnol i'r map gael ei gadw ar ffurf electronig. Mae darpariaethau hefyd ynghylch diwygio mapiau, ymgynghori ar fapiau newydd, a'r hawl i gael copïau o fapiau ac ymgynghoriadau am ddim. Nid yw'r canllawiau yn ddarostyngedig i weithdrefnau'r Cynulliad.

6.32 Mae'r map o'r prif afonydd yng Nghymru yn nodi'r afonydd yng Nghymru a ddynodwyd yn 'Brif Afonydd' at ddibenion rheoli'r perygl o lifogydd. Yng Nghymru, Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am gyflawni swyddogaethau ar brif afonydd. Y Byrddau Draenio Mewnol sy'n gyfrifol am yr holl gyrsiau dŵr eraill sydd o fewn y dosbarthau draenio mewnol, a'r Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol sy'n gyfrifol am y rhai sydd y tu allan i'r dosbarthau hynny.

6.33 Ar 12 Tachwedd 2013, cyhoeddodd y Gweinidog ei fod wedi penderfynu trosglwyddo swyddogaethau, asedau a staff y tri Bwrdd Draenio Mewnol yng Nghymru i Cyfoeth Naturiol Cymru o 2015.

6.34 Mae'r Bil yn diddymu'r rhan o'r Ddeddf Adnoddau Dŵr sy'n dileu'r ddyletswydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru i gadw a chynnal cofrestr o fapiau sy'n dangos y pibellau a'r gweithfeydd dŵr y mae'n gyfrifol amdanynt.

<u>Rhan 3 – Diogelu'r Amgylchedd – Cymalau 44-46 ac Atodlen 8</u>

6.35 Mae'r rhan hon o'r Bil yn canolbwyntio ar y gyfundrefn trwyddedu amgylcheddol (*Deddf Atal a Rheoli Llygredd 1999*) a'r pŵer i gydgrynhoi yn y gyfundrefn honno y gofynion o ran tynnu a chronni dŵr, caniatadau amddiffynfeydd rhag llifogydd a chymeradwyo ysgolion pysgod, a weinyddir ar hyn o bryd gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n cynnwys pwerau sy'n ei gwneud yn bosibl creu un set o reoliadau sy'n cwmpasu'r gofynion presennol o ran atal llygredd a thrwyddedau rheoli a rheoliadau newydd am drwyddedau tynnu dŵr, caniatadau amddiffynfeydd rhag llifogydd a chymeradwyo ysgolion pysgod. Bydd cael un set o reoliadau yn galluogi gweithredwyr i wneud cais am un drwydded, yn hytrach na chyfres ohonynt.

6.36 Bydd unrhyw reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru fel arfer yn ddarostyngedig i'r weithdrefn **negyddol**, ac eithrio'r set gyntaf o reoliadau a wneir o dan y darpariaethau galluogi, neu reoliadau sy'n creu trosedd neu'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol. O dan amgylchiadau o'r fath, bydd y rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn **gadarnhaol**.

Rhan 4 – Yswiriant rhag llifogydd

6.37 Mae'r rhan hon yn rhoi cymal dalfan yn y Bil i fynd i'r afael ag argaeledd a fforddiadwyedd yswiriant i aelwydydd yn y DU sy'n wynebu perygl mawr o lifogydd. Caiff y cymal hwn ei ailystyried yn ystod hynt y Bil gyda'r bwriad o alluogi Llywodraeth y DU i gyflawni ei hymrwymiad i sicrhau trefniadau newydd ar ôl i'r cytundeb gwirfoddol presennol (Datganiad Egwyddorion) rhwng Llywodraeth y DU a'r diwydiant yswiriant ddod i ben. Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau y bydd y Datganiad Egwyddorion yn parhau'n gymwys hyd yn oed ar ôl iddo ddod i ben, hyd nes y daw cynllun newydd i rym.

6.38 Daeth ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar y cymalau drafft i'w cynnwys yn y Bil i ben ar 20 Medi 2013.

6.39 Gan fod 'yswiriant' yn eithriad i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, mae'n aneglur a fydd Llywodraeth Cymru yn gosod Memorandwm pellach, unwaith i'r Bil gael ei ddiwygio, er mwyn cynnwys unrhyw gymalau manwl.

6.40 **Efallai y bydd y Pwyllgor am ofyn i'r Gweinidog egluro natur a chwmpas unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch y cymalau drafft ar yswiriant llifogydd, ac a ddisgwylir Memorandwm pellach.**

Rhannau 5 a 6 – Amrywiol, cyffredinol a therfynol

6.41 Nid yw'r Memorandwm yn ceisio cydsyniad am unrhyw ddarpariaethau yn y rhannau hyn o'r Bil.

## 7. Cymhwysedd Deddfwriaethol

7.1 Ym marn Llywodraeth Cymru, mae darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad i'r graddau y maent yn berthnasol i'r canlynol:

- pysgodfeydd – paragraff 1 o Ran 1 Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru,
- hyrwyddo busnes a chystadleuaeth – paragraff 4 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru,
- diogelu'r amgylchedd a draenio tir – paragraff 6 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru,
- diogelu'r arfordir, rheoli'r perygl o lifogydd, cyflenwad dŵr, ansawdd dŵr, rheoli adnoddau dŵr, gweithgareddau trwyddedig sy'n defnyddio system gyflenwi ymgymerwr y mae ei ardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, rheoleiddio ymgymerwyr y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.

## 8. Casgliad

8.1 Er bod y Bil yn cynnwys cyfuniad o faterion datganoledig a rhai heb eu datganoli, mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn fodlon ei fod yn gwneud darpariaeth berthnasol mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Ym marn y Gweinidog, y Bil yw'r cyfrwng deddfwriaeth mwyaf ymarferol a chymesur i alluogi'r darpariaethau hynny i fod yn gymwys mewn perthynas â Chymru, o ystyried y caiff y diwydiant dŵr a charthffosiaeth ei reoleiddio ar sail ymgymerwyr sy'n gweithredu'n 'gyfan gwbl neu'n bennaf' yng Nghymru.

8.2 Efallai y bydd y Pwyllgor am drafod y pwyntiau a godwyd ym mharagraffau 6.2, 6.11 a 6.40 o'r nodyn hwn.

Lisa Salkeld/ Elfyn Henderson
Gwasanaethau Cyfreithiol/ y Gwasanaeth Ymchwil
Tachwedd 2013